**EITEM AR YR AGENDA: 7**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**21ain Medi 2006**

**CYNLLUN PENSIWN Y DYNION TÂN – Y DIWEDDARAF**

**Adroddiad gan Chris Enness, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

**Diben yr Adroddiad**

**1.** Rhoi'r diweddaraf am ddyfodiad Cynllun Pensiwn Newydd y Dynion Tân 2006 [sic], newidiadau i Gynllun Pensiwn y Dynion Tan (1992) a llacio'r gyfundrefn dreth ar bensiynau mewn perthynas â rhoi cyfle i rywun godi pensiwn a pharhau i weithio.

**Cyflwyniad**

**2.** Yn y Papur Gwyn *Our Fire and Rescue Service,* ymrwymodd y Llywodraeth i gyflwyno trefniadau newydd ar gyfer pensiwn i ddiffoddwyr tân a oedd fwy addas i Wasanaeth Tân ac Achub yn y dyfodol.

**3.** Mae prif amcanion y cynllun newydd yn ymwneud â:

- Recriwtio a chadw staff
- Fforddiadwyedd
- Dod â phensiynau diffoddwyr tân i gyd-fynd ag aelodau eraill o'r Gwasanaeth Tân ac Achub a gweithwyr eraill yn y sector gyhoeddus
- Hyblygrwydd ac amrywiaeth

**Cyflwyniad** *(parhad)*

**4.** Daeth Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân (Cymru) (Diwygiad) 2006 sy'n adlewyrchu'r cynllun yn Lloegr, i rym ar Fehefin 23 2006, a thrwy hynny ddiwygio ac atgyfnerthu Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992. Daeth y Gorchymyn i rym o Ebrill 6, 2006 ac yn ôl-weithredol. Aros i Gynllun Pensiwn Newydd y Dynion Tân (Cymru) 2006 ddod i rym yr ydym; a'r disgwyl yw i'r broses i ddod a'r cynllun i rym yng Nghymru fod rhyw 2 i 3 mis ar ôl Lloegr.

## Newidiadau i Gynllun Pensiwn y Dynion Tân (1992)

### Cau'r Cynllun

**5.** Ni fydd recriwtiaid newydd a gyflogir gan y Gwasanaeth Tân ac Achub ar ôl Ebrill 5, 2006 yn gymwys i ymuno â'r cynllun presennol.

### Buddion Marwolaeth ac Anafiadau

**6.** Mae'r darpariaethau iawn-daliadol anghyfrannol sy'n ymorol am farwolaeth ac anafiadau sydd yng Nghynllun Pensiwn y Dynion Tân ar hyn o bryd i gael eu tynnu allan a'u rhoi mewn Cynllun Iawn-daliadol newydd i'r Diffoddwyr Tân. Nid oes unrhyw newidiadau i'r darpariaethau sy'n ymorol am farwolaeth ac anafiadau, ac ble mae hynny'n bosibl, mae'r darpariaethau wedi eu trosglwyddo'n ddigyfnewid i'r Cynllun Iawn-daliadol Dynion Tân newydd. Mae'r newid hwn yn rymus ers Ebrill 1, 2006.

### 7. Y trefniadau newydd ar gyfer Afiechyd

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer pennu hawl aelod o'r Cynllun i ddyfarniad afiechyd wedi ei newid i gadw Cynllun 1992 yn unol â'r trefniant dwy haen gyflwynir â Chynllun 2006. Byddai'r haen isaf yn cael ei thalu pan fo aelod yn gallu gwneud gwaith cyffredin (nid gwaith diffoddwr tân); a byddai'r haen uchaf yn cael ei thalu pan nad yw aelod yn gallu cyflawni gwaith ar yr un raddfa.

**Cyflwyniad** *(parhad)*

## Cymryd Buddion a Pharhau i Weithio fel Diffoddwr/aig Tân

**8.** Nod y gyfundrefn newydd ar gyfer trethu pensiynau, a ddaeth i rym ar Ebrill 6, 2006 oedd symleiddio'r rheolau treth cymhleth, a thrwy hynny leihau'r anhyblygrwydd oedd yn annog pobl i beidio â chynilo. Yn lle'r cyfyngiad o 15% ar gyfraniadau am ostyngiad yn y dreth daeth Lwfans Sengl Gydol Oes sef cyfanswm gwerth y gronfa (oedd wedi ei osod ar 1.5miliwn i ddechrau), mae'r aelodau bellach yn rhydd i gyfrannu i faint bynnag o drefniadau pensiwn ag y mynnant ar yr un pryd. Roedd dyfodiad ymddeoliad hyblyg hefyd yn cael gwared ar y cyfyngiadau ar y gyfundrefn dreth mewn perthynas â derbyn rhai buddion neu pob un tra'n parhau i weithio, a thrwy hynny allu crynhoi rhagor o fuddion gan yr un cyflogwr.

Yn ddibynnol ar y rheolau ynghylch bodloni'r oedran pensiwn isaf a'r oedran pensiwn arferol, gall diffoddwr/aig tân nawr ymddeol a thynnu pensiwn ac unrhyw lwmp-swm, a chael ei ailgyflogi gan y Gwasanaeth.  Fodd bynnag, mae darpariaeth yn nhelerau Cynllun Pensiwn y Dynion Tân i leihau'r Pensiwn sy'n daladwy am unrhyw gyfnod pryd y mae'r pensiynwr yn cael ei gyflogi fel Diffoddwr Tân cyffredin.

I ystyried ailgyflogi unigolyn, rhaid bodloni'r meini prawf canlynol:-

- Unrhyw unigolyn sydd wedi cyflawni, neu ar fin cyflawni 30 mlynedd neu ragor o wasanaeth gyda'r Gwasanaeth Tân ac Achub, ac wedi cyrraedd yr oedran pensiwn isaf neu arferol fel y nodir yng Nghynllun Pensiwn y Dynion Tân
- Rhaid i'r unigolyn fod yn bwriadu ymddeol o fewn chwe wythnos i wneud cais i gael ei ailgyflogi, gyda Phensiwn ymddeol arferol.
- Rhaid i'r unigolyn fod yn ffit yn feddygol i barhau yn y rôl.

**Cyflwyniad** *(parhad)*

- Rhoddir ystyriaeth i berfformiad ac ymddygiad yr unigolyn hefyd, yn cynnwys unrhyw ddyfarniadau disgyblu.
- Rhaid i'r unigolyn feddu ar sgiliau, gwybodaeth neu brofiad penodol y byddai Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ei chael yn anodd dod o hyd iddynt yn y tymor byr.
- Ni roddir ystyriaeth i unigolion sy'n ymddeol ar sail afiechyd, boed eu dyfarniad ar yr haen isaf neu'r haen uchaf, ac ni roddir ystyriaeth i unigolion sy'n ymddeol gyda dyfarniad o anaf.

## Cynllun Pensiwn Newydd y Dynion Tân (2006)

### Aelodaeth

**9.** Bydd aelodaeth o'r cynllun newydd, sef Cynllun Pensiwn y Dynion Tân (Cymru) 2006 yn agored i ddiffoddwyr tân (h.y. y rhai sydd ar y systemau llawn amser a dyletswydd ran amser) a fydd yn cael eu diffinio fel pobl y mae eu rôl wrth ymuno â'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn cynnwys mynd at danau neu argyfyngau eraill.

### Recriwtiaid newydd a gyflogwyd ers 06 Ebrill 2006

**10**
- Cau'r cynllun presennol i recriwtiaid newydd i'r Gwasanaeth ers Ebrill 6, 2006
- Sefydlu trefniant pontio lle bo recriwtiaid newydd (llawn amser a rhan amser) yn cael eu rhoi yn y cynllun presennol dros dro hyd nes bydd y gorchymyn ar gyfer y cynllun newydd wedi ei wneud
- Darparu ar gyfer y rhai sy'n dod i mewn wedi Ebrill 5, 2006, eu gwŷr/gwragedd, partneriaid sifil a'u dibynyddion i fod yn aelodau o'r cynllun presennol ar y diwrnod y daw'r cynllun newydd yn weithredol.

**Cyflwyniad** *(parhad)*

- Ni fydd recriwtiaid newydd i'r System Dyletswydd Ran Amser yn gallu ymuno â'r cynllun presennol yn ystod y cyfnod pontio hwn, a byddant yn gorfod aros i'r cynllun ddod i rym cyn dechrau cyfrannu. Bydd unigolion sy'n dewis ymuno â'r cynllun newydd yn gymwys i gael ôl-aelodaeth o Ebrill 1, 2006 ymlaen.
- Disgwylir i'r cyfnod pontio fod am 12 mis. Pan ddaw'r gorchymyn newydd i rym, bydd y recriwtiaid newydd hynny yr effeithir arnynt yn cael eu trosglwyddo'n awtomatig i'r Cynllun Newydd.

**Diffoddwyr Tân y System Dyletswydd Ran Amser**

**11.** Bydd Diffoddwyr Tân y System Dyletswydd Ran Amser yn gymwys i ymuno â Chynllun Pensiwn Newydd y Dynion Tân; ond yn bresennol mae mater sy'n mynd rhagddo yn ymwneud â dyfarniad gan Dŷ'r Arglwyddi ynghylch hawliad gan ddiffoddwr tân rhan amser i ymaelodi â'r cynllun presennol.

Nid oes dim goblygiadau gan y dyfarniad ar fwriad y Llywodraeth i gyflwyno trefniadau pensiwn newydd ar gyfer diffoddwyr tân y System Dyletswydd Ran Amser o Ebrill 6, 2006 ymlaen. Bydd y Cynllun Newydd yn agored i Ddiffoddwyr Tân y System Dyletswydd Ran Amser sydd newydd eu recriwtio, a bydd Diffoddwyr Tân presennol y System Dyletswydd Ran Amser yn cael dewis ymuno â'r cynllun newydd ai peidio.

**Argymhellion**

**12.** Bod y Panel yn

12.1 derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf hon ynghylch Cynlluniau Pensiwn y Dynion Tân er gwybodaeth; ac yn

12.2 dirprwyo i'r Prif Swyddog Tân y cyfrifoldeb am greu polisi sy'n cymryd ystyriaeth o'r newidiadau deddfwriaethol i'r cynllun pensiwn, i gynnwys ailgyflogi staff wedi iddynt ymddeol.